



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Annwyl Noddwr Prosiect

**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig
2014-2020 (WGRC-RDP 14-20) – Trefniadau Cyllido - Negodiadau Erthygl
50**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi cadarnhau bod y broses ffurfiol ynghylch negodi telerau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi cychwyn. Cymerwyd y cam hwn yn dilyn y refferendwm ar 23 Mehefin 2016, pan bleidleisiodd y DU dros ymadael â'r UE, ac mae wedi digwydd yn unol ag Erthygl 50 Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd, sy'n amlinellu'r drefn ar gyfer ymadawiad Aelod-wladwriaeth â'r UE.

Cyn yr uchod, hysbysodd Llywodraeth y DU y Gweinyddiaethau Datganoledig a rhanddeiliaid eraill sy'n gweinyddu/gweithredu cyllid Ewropeaidd:

- Y bydd gwarant o gyllid drwy gydol oes pob cynllun a fydd wedi'i gymeradwyo ar adeg ymadawiad y DU â'r UE - gan roi sicrwydd i'r holl fuddiolwyr bod modd iddynt barhau i gyfrannu i gyflawni Rhaglenni 2014-20 yn unol â'u cynlluniau.
- O'r bwriad i gyflwyno'r Bil Diddymu Mawr, lle bydd y corff o gyfreithiau presennol yr UE yn cael ei drosi i gyfraith ddomestig a/neu y bydd rhai elfennau'n cael sylw drwy'r cytundeb ymadael - gan roi eglurder, sicrwydd cyfreithiol a chysondeb i bawb yn ystod y cyfnod negodi a thu hwnt o bosib.

Gellir gweld llythyr Trysorlys Ei Mawrhydi yn cadarnhau'r gwarant hwn yma:
<http://www.assembly.wales/deposited%20papers/dp-1601-16-21.pdf/dp-1601-16-21.pdf>

Gellir gweld datganiad y Prif Weinidog, ynghylch y llythyr hwn yma:
<http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/58646153/?skip=1&lang=cy>

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen i reoli unrhyw gyfnod pontio mewn ffordd strwythuredig, fesul cam. Bydd hyn yn golygu ystyried unrhyw effaith ar delerau ac amodau llythyr cymeradwyo cyllid WGRC-RDP 14-20 a thelerau ac amodau'r grant (a elwir ar ôl hynny'n 'gymeradwyaeth gyllido') a gyhoeddir o

dan awdurdod Gweinidogion Cymru, i fuddiolwyr, ac yn arbennig o ran parhau i fod yn berthnasol.

Byddwn ni'n ceisio sicrhau cyn lleied â phosib o newidiadau i eiriad y telerau ac amodau sy'n rhan o'r cymeradwyaethau cyllido, er mwyn galluogi gweithrediadau i barhau i gyflawni a rhoi sicrwydd i fuddiolwyr (noddwyr prosiectau) y bydd yr holl delerau ac amodau a dderbyniwyd yn parhau yn eu lle nes ymadawiad y DU â'r UE.

Rhywbryd yn y dyfodol, ar adeg briodol, efallai y bydd angen i ni ddiwygio'r holl gymeradwyaethau cyllido er mwyn dal trosiad Rheoliadau'r UE i gyfraith ddomestig ac felly sicrhau bod modd i'r gweithgarwch barhau yn ddi-dor. O safbwynt y WGRC-RDP 14-20 mae gennym yr hawl i weithredu diwygiadau o'r fath a nodir yng nghymal 28 y gymeradwyaeth gyllido.

Rydym am eich sicrhau bod yr holl amodau a dderbyniwyd o fewn cymeradwyaeth gyllido gennym ni mewn perthynas â'ch gwaith a gyllidir gan WGRC-RDP 14-20 yn parhau i fod mewn grym ac yn cael effaith lawn.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r gymeradwyaeth gyllido drwy hysbysiad ysgrifenedig. Bydd angen llofnodi hysbysiadau o'r fath yn yr un modd â'r cytundeb cyllido gwreiddiol yn unol ag amodau 3, 4 a 31 o'r gymeradwyaeth gyllido.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y llythyr hwn a/neu eich cymeradwyaeth gyllido, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiect penodol, a fydd yn barod i'ch helpu.

Yn gywir,

Charlotte Cosserat/Neil Howard
Pennaeth yr Uned Rheoli Cynlluniau

